Awduron a'u Cynefin:
Pum Gwibdaith Lenyddol yng Nghymru

Mae'n bleser gan yr Academi gyflwyno cyfres o Wibdeithau Llenyddol yn seiliedig ar **Waldo Williams**, **Gillian Clarke**, **Dic Jones**, **Roland Mathias**, **Lewis Jones** a **Dafydd ap Gwilym**. Bydd y gwibdeithiau'n cynnwys ymweliadau â lleoliadau pwysig ym mywyd a gwaith yr awduron, sgyrsiau gan arbenigwyr, darlleniadau a pherfformiadau. Cawn ddarlleniadau o lygad y ffynnon ar un daith, wrth i'r awduron eu hunain ymuno â ni. Mae'r holl wibdeithiau'n cynnwys cinio a seibiannau coffi mewn lleoliadau hyfryd. Gobeithiwn y byddwch yn dysgu mwy am yr awduron ac yn cael diwrnod i'r brenin.

Writers in their Landscape:
Five Literary Bus Tours in Wales

Academi is pleased to present a series of Literary Bus Tours, focusing on **Waldo Williams**, **Gillian Clarke**, **Dic Jones**, **Roland Mathias**, **Lewis Jones** and **Dafydd ap Gwilym**. On each trip, we will visit important sites and locations from the writer's life and work, learn from experts and hear readings and recitals. On one occasion, we will even hear from two writers themselves. All tours include lunch and coffee breaks at carefully selected venues and we hope you will not only learn more about the writers, but also have fun on these tours.

Llun / Image: Waldo Williams

Waldo Williams yn Sir Benfro

Sadwrn 9 Mai 2009

Man Cychwyn/Gorffen: Caerfyrddin
Gwibdaith trwy gyfrwng y Gymraeg: Ni ddarperir offer cyfieithu

Waldo Williams (1904–1971) oedd un o feirdd Cymraeg mwyaf blaenllaw yr 20fed ganrif. Roedd hefyd yn enwog am ei ddaliadau heddychol, am fod yn ymgyrchwr gwrth-ryfel ac yn genedlaetholwr Cymraeg. Dengys ei farddoniaeth amrywiaeth o ddylanwadau, o William Wordsworth a Walt Whitman i emynau Cymraeg a mesur caeth y gynghanedd. **Dr Damian Walford Davies**, Uwch Ddarlithydd Saesneg ym Mhrifysgol Aberystwyth, sydd wedi cynllunio'r daith hon gyda'r Academi a byddwn yn ymweld â llefydd megis Capel Brynconin, safle bedd teulu Waldo, Carreg Waldo yn Rhos-fach ger Mynachlog-ddu a man cyfarfod y Crynwyr yn Aberdaugleddau.

Waldo Williams in Pembrokeshire

Saturday 9 May 2009

Departure/Arrival point: Carmarthen
Welsh language tour: No English translation will be provided

Waldo Williams (1904–1971) was one of the leading Welsh-language poets of the 20th century. He was also a notable pacifist, anti-war campaigner, and Welsh nationalist. His poetry shows many influences, from William Wordsworth and Walt Whitman to Welsh hymns and traditional Welsh 'cynghanedd'. **Dr Damian Walford Davies**, Senior Lecturer for English at Aberystwyth University, will lead this tour and take us to places like Brynconin Chapel, the site of Waldo's grave, the Waldo Williams memorial stone (the 'cofeb') at Rhosfach and the Quaker Meeting House in Milford Haven.

Llun / Image: Roland Mathias.

Roland Mathias yn Nhal-y-bont ar Wysg

Sadwrn 13 Mehefin 2009

Man Cychwyn/Gorffen: Caerdydd
Gwibdaith trwy gyfrwng y Saesneg

Ganed **Roland Mathias** (1915–2007), yr awdur a'r beirniad llenyddol, yng Nglyn Collwn (safle presennol cronfa ddŵr Talybont) ac fe'i claddwyd ym mynwent hardd y capel yn Aber. Bydd y wibdaith yn rhoi cyfle i ni edrych ar ei waith trwy'r cerddi a ysgrifennodd amdano'i hun, ei deulu a thirlun ei ieuenctid. **Sam Adams**, golygydd 'Collected Poems' a 'Collected Stories' fydd yn traddodi'r ddarlith agoriadol a bydd **Dr John Pikoulis**, Cyd-gadeirydd yr Academi, yn trafod ei farddoniaeth. Bydd mab y bardd, **Glyn Mathias** yn ymuno â ni ar y wibdaith ac yn cyfrannu ffrwyth ei ymchwil yntau i hanes ei deulu.

Roland Mathias at Talybont-on-Usk

Saturday 13 June 2009

Departure/Arrival point: Cardiff
English language tour

Roland Mathias (1915–2007) was a writer and critic who was born in Glyn Collwn (the site of the present reservoir at Talybont) and is buried in the picturesque country chapel at Aber. This tour will examine his work through the poems he wrote about himself, his family and the landscape of his youth. **Sam Adams**, editor of his 'Collected Poems' and 'Collected Stories', will join tour leader **Dr John Pikoulis**, Academi's Co-Chair, to discuss his poetry. The poet's son, **Glyn Mathias**, will accompany us on the day and contribute his own research into the family history.

Chwith / Left: Gillian Clarke, Llun gan Keith Morris. / Photograph by Keith Morris.
Dde/ Right: Dic Jones, Llun gan Luned Emyr. / Photograph by Luned Emyr.

Gillian Clarke a Dic Jones yng Ngheredigion

Sadwrn 11 Gorffennaf 2009

Man Cychwyn/Gorffen: Aberystwyth
Gwibdaith ddwyieithog: Darperir offer cyfieithu

Cyfle unigryw i dreulio diwrnod yng nghwmni dau o awduron mwyaf cydnabyddedig y Gymru gyfoes: **Gillian Clarke**, **Bardd Cenedlaethol Cymru** a **Dic Jones**, neu 'Dic yr Hendre', **Archdderwydd presennol yr Eisteddfod Genedlaethol**. Mae'r ddau awdur yn byw yng Ngheredigion a byddwn yn ymweld â lleoliadau sydd o bwys iddynt, megis Talgarreg, cartref Gillian, a Phisgah. Bydd yr awduron yn darllen eu gwaith a cheir cyfle yn ystod y wibdaith i sgwrsio â hwy mewn awyrgylch anffurfiol a chartrefol.

Gillian Clarke and Dic Jones in Ceredigion

Saturday 11 July 2009

Departure/Arrival point: Aberystwyth
Bilingual tour: English translation provided

Join us for this unique opportunity to spend a day in the company of two of Wales' most acclaimed contemporary writers: **Gillian Clarke**, **National Poet of Wales** and **Dic Jones** (also known by his bardic name 'Dic yr Hendre'), current **Archdruid of the National Eisteddfod of Wales**. Both writers live in Ceredigion and we will visit places in the area they know and love, including Talgarreg, Gillian's home, and Pisgah. Both poets will read from their work and you will have the opportunity to talk to them informally during the day.

Awduron a'u Cynefin:
Ffurflen Archebu

Pris tocyn arferol: £37.00 y pen ar gyfer un daith
Aelodau a Chefnogwyr yr Academi: £35.00 y pen ar gyfer un daith

Mae'r pris yn cynnwys te a choffi, cinio, y daith fws a'r darlithoedd/ sgyrsiau. Ni ellir cynnig unrhyw ostyngiadau eraill.

Hoffwn archebu:

____ lle ar wibdaith **Waldo Williams** (trwy gyfrwng y Gymraeg), 9 Mai 2009

____ lle ar wibdaith **Roland Mathias** (trwy gyfrwng y Saesneg), 13 Mehefin 2009

____ lle ar wibdaith **Gillian Clarke/Dic Jones** (dwyieithog), 11 Gorffennaf 2009

____ lle ar wibdaith **Lewis Jones** (trwy gyfrwng y Saesneg), 19 Medi 2009

____ lle ar wibdaith **Dafydd ap Gwilym** (trwy gyfrwng y Gymraeg), 24 Hydref 2009

Nifer y llysieuwyr _____

Unrhyw anghenion eraill:

_____

_____

Enw _____

Cyfeiriad _____

_____ Cod post

Rhif ffôn _____

Ebost _____

Amgaeaf siec o £ _____ yn daladwy i'r Academi

Neu tynnwch £ _____ oddi ar fy ngherdyn credyd/cerdyn debyd: Visa (credyd) / Visa (debyd) / Mastercard / Switch / Maestro / Solo / Electron (amgylchynwch)

Rhif y cerdyn

Dyddiad dechrau: Dyddiad dod i ben:

Côd diogelwch: Rhif cyhoeddi: (os yn berthnasol)

Enw ar y cerdyn: _____

Anfoner y ffurflen hon, ynghŷd â'ch siec i:
Academi, Prif Weithredwr: Peter Finch, Tŷ Mount Stuart, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, Cymru, CF10 5FQ
Tel: 029 2047 2266 Fax: 029 2049 2930
www.academi.org / post@academi.org

Rhoddir ad-daliad os hysbysir yr Academi dair wythnos cyn y digwyddiad. Codir tâl am gweinyddol unrhyw ad-daliadau.

Writers in their Landscape:
Booking Form

Regular ticket price: £37.00 per person/per tour
Academi Members & Associates: £35.00 per person/per tour
Fee includes tea/coffee, lunch, coach travel and lectures/talks.
No other discounts are available.

I would like to book:

____ place(s) on the **Waldo Williams tour** (Welsh language tour), 9 May 2009

____ place(s) on the **Roland Mathias tour** (English language tour), 13 June 2009

____ place(s) on the **Gillian Clarke/Dic Jones tour** (bilingual tour), 11 July 2009

____ place(s) on the **Lewis Jones tour** (English language tour), 19 September 2009

____ place(s) on the **Dafydd ap Gwilym tour** (Welsh language tour), 24 October 2009

Number of vegetarians _____

I / we have the following additional requirements:

_____

_____

Name _____

Address _____

_____ Postcode _____

Telephone _____

Email _____

I enclose a cheque for £ _____ made payable to **Academi**

Or, please charge £ _____ to my credit card/debit card:
Visa (credit) / Visa (debit) / Mastercard / Switch / Maestro / Solo / Electron (please circle)

Card Number | | | | | | | | | | | | | | | | |

Start Date: | | | | Expiry Date: | | | |

3 Digit security code: | | | Issue Number (if applicable): | |

Name as shown on card: _____

Please return this form with payment to:
Academi, Chief Executive: Peter Finch, Mount Stuart House, Mount Stuart Square, Cardiff, Wales, CF10 5FQ
Tel: 029 2047 2266 Fax: 029 2049 2930
www.academi.org / post@academi.org

Refunds for altered or cancelled bookings will only be available to those who notify Academi three weeks before the event. Refunds will be subject to an administration charge.

Llun / Image: Lewis Jones, 'Cwmardy' & 'We Live', Library of Wales, cyhoeddwyd gan Parthian Books. / published by Parthian Books.

Lewis Jones yng Nghwm Clydach
Sadwrn 19 Medi 2009

Man Cychwyn/Gorffen: Caerdydd
Gwibdaith trwy gyfrwng y Saesneg

Nid oes ffuglen sy'n ymateb i hanes meysydd glo'r de yn yr un modd â gweithiau **Lewis Jones** (1897–1939), 'Cwmardy' a 'We Live'. Bydd y wibdaith hon yn cynnwys taith gerdded ar hyd ochr afon Clydach, heibio i ddau lyn ac i ganol y mynyddoedd yn ogystal ag ymweliad â safle hen bwll glo y Cambrian; man canolog i'w nofelau. Byddwn yn ymweld â safleoedd dau o gyn-gartrefi Jones; un ble ysgrifennodd ei ddwy nofel. Dechreua'r daith ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda, ble bydd **Dr Ben Curtis** yn trafod hanes cymdeithasol a gwleidyddol y cwm a bydd **Dr John Pikoulis**, Cyd-gadeirydd yr Academi, yn trafod personoliaeth Jones yng ngoleuni 'Cwmardy'.

Lewis Jones in Clydach Vale
Saturday 19 September 2009

Departure/Arrival point: Cardiff
English language tour

No more extraordinary fictional response to the history of the south Wales coalfield has been written than **Lewis Jones**'s (1897–1939) 'Cwmardy' and 'We Live'. This tour includes a walk up the Clydach river past two lakes and up into the mountains as well as the site of the old Cambrian Colliery. We will visit the sites of Jones's two homes in the village, including the one where the novels were written. The tour starts at the Heritage Park Hotel, where **Dr Ben Curtis** will talk about the social and political history of the valley and **Dr John Pikoulis**, Academi's Co-Chair, will examine Jones's personality in the light of 'Cwmardy'.

Llun / Image: Darlun o www.dafyddapgwilym.net trwy garedigrwydd Dr Dafydd Johnston.
/ Illustration from www.dafyddapgwilym.net, used with kind permission by Dr Dafydd Johnston.

Dafydd ap Gwilym yng Ngheredigion
Sadwrn 24 Hydref 2009

Man Cychwyn/Gorffen: Aberystwyth
Gwibdaith trwy gyfrwng y Gymraeg: Ni ddarperir offer cyfieithu

Dafydd ap Gwilym yw un o feirdd mwyaf y Gymraeg ac mae'n dal lle blaenllaw ymysg holl feirdd Canoloesol Ewrop. Dilynwn ôl ei droed wrth ymweld â Brogynin, ble tybir y'i ganwyd, yna draw i Eglwys Llanbadarn – lleoliad ei gerdd enwog 'Merched Llanbadarn' cyn profi hud a dirgelwch Ystrad Fflur. Arweinir y daith gan arbenigwr ar y bardd, **Dr Huw Meirion Edwards**, Uwch Ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, ac fe'n harweinir yn ôl ar hyd lwybrau hanes yn llawn asbri Dafydd ap Gwilym. Cewch gyfle hefyd i geisio cyfansoddi llinell neu ddwy o gynghanedd, tra'n ciniawa yn y Talbot yn Nhregaron.

Am fwy o wybodaeth am Dafydd ap Gwilym ewch i www.dafyddapwgilym.net

Dafydd ap Gwilym in Ceredigion
Saturday 24 October 2009

Departure/Arrival point: Aberystwyth
Welsh language tour: No English translation will be provided

Dafydd ap Gwilym is one of the greatest Welsh poets of all time and amongst the leading poets of Europe in the Middle Ages. This tour will visit his alleged birthplace Brogynin, Llanbadarn Chapel (where 'Merched Llanbadarn' was written) and we will take in the breathtaking medieval magic of Ystrad Fflur/Strata Florida Abbey. **Dr Huw Meirion Edwards**, Senior Lecturer at the Department of Welsh, Aberystwyth University, will guide this tour and transport you back in time to evoke the spirit of one of Wales' heroes. You will even get a chance at trying your skill at 'cynghanedd' over lunch at the Talbot in Tregaron.

Visit www.dafyddapgwilym.net for more information on Dafydd ap Gwilym.

Gwybodaeth

- Tocynnau: Pris arferol £37.00 y pen ar gyfer un daith, Aelodau a Chefnogwyr yr Academi £35.00 y pen ar gyfer un daith.
- Ceir arweinydd i bob taith, a byddant yn ein tywys ar deithiau cerdded byr a hamddenol, weithiau ar hyd caeau a thros gamfeydd, ond byddant yn fyrrach na milltir. Dewch ag esgidiau a dillad addas gyda chi.
- Cynhelir dwy wibdaith trwy gyfrwng y Saesneg, dwy trwy gyfrwng y Gymraeg ac un ddwyieithog.
- Bydd pob taith yn gadael y mannau cyfarfod rhwng 8.00 am a 10.30 am (mae'r union amserau'n amrywio) gan ddychwelyd i'r un lle erbyn 7.00 pm yr un noson.
- Wedi archebu, byddwch yn derbyn pecyn gwybodaeth a fydd yn cynnwys amserlen fanwl, yn nodi'r man cyfarfod ac unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Os ydych yn teithio i'r man cyfarfod o leoliad arall, gallwch ymweld â'r gwefannau canlynol os am awgrymiadau ynglŷn â llety a llefydd i ymweld â hwy: www.visitwales.co.uk www.southernwales.com www.visitcardiff.com www.inspirationalwales.com www.visitmidwales.co.uk

Mae'r Academi wedi derbyn Dyfarniad Cwmni Disglair gan Gyngor Celfyddydau Cymru 2008-2010. Mae'r Dyfarniad yn cefnogi rhaglen o dwristiaeth llenyddol, yn cynnwys y gyfres hon o wibdeithiau.

Cedwir yr hawl gan y trefnwyr i addasu'r gwibdeithiau os oes rhaid. Noder mai nifer cyfyngedig all fynychu'r gwibdeithiau. Archebwch eich lle mewn da bryd, rhag cael eich siomi.

Yr Academi Gymreig yw'r Asiantaeth Genedlaethol er Hyrwyddo Llenyddiaeth a Chymdeithas Llenorion Cymru. Mae'r Academi'n gweithio ar y cyd â Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd a gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif Elusen Gofrestredig 506402. Am fwy o wybodaeth ewch i www.academi.org

Information

- Tickets: Regular price £37.00 per person per tour, Academi Members and Associates £35.00 per person per tour.
- All tours are fully guided and include short walks, some over fields and stiles, though no more than about a mile and gently-paced. Please bring sensible shoes and protection against the weather.
- Two tours are held in English, two in Welsh and one bilingually.
- Each tour will leave the listed departure point between 8.00 am and 10.30 am in the morning (exact time varies from tour to tour) and will return to the same location by 7.00 pm the same evening.
- After booking, you will receive an information pack including detailed timetables, pick-up points and additional information.

If you are travelling to a tour's departure point from elsewhere, visit one of the following sites for information on local accommodation and places to visit: www.visitwales.co.uk www.southernwales.com www.visitcardiff.com www.inspirationalwales.com www.visitmidwales.co.uk

Academi is a recipient of an Arts Council of Wales Beacon Company Award 2008-2010. This award supports a programme of literary tourism, including this series of bus tours.

The organisers reserve the right to make alterations to the programme if circumstances dictate. Please be aware that places are limited. Book early to avoid disappointment.

Academi is the Welsh National Literature Promotion Agency and Society for Writers. Academi works in partnership with Tŷ Newydd Writers' Centre and works with the support of the Arts Council of Wales and the Welsh Assembly Government. Registered Charity Number 506402. For more information, please visit www.academi.org

Awduron a'u Cynefin
Writers in their Landscape

Pum gwibdaith lenyddol yng Nghymru
Five literary bus tours in Wales

academi
hybu llên • literature promotion

Noddir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by the Welsh Assembly Government

Cefnogir Creadigrwydd gan Cyngor Celfyddydau Cymru
The Arts Council of Wales
Supporting Creativity